Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Janes E (2026).**
**Iechyd, llesiant a bywyd ysgol gofalwyr ifanc yng Nghymru**
**Canfyddiadau gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**
**Caerdydd: Llywodraeth Cymru.**

Barn yr ymchwilwyr yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Hoffem ddiolch i'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) am ddarparu data ar gyfer yr adroddiad hwn. Doedd SHRN ddim yn rhan o'r dadansoddiad na'r dehongliad, ac mae unrhyw farn a fynegir yn dod o'r ymchwilydd yn unig

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978-1-83745-277-4
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2026
WG54322

## Cynnwys


**Crynodeb a chanfyddiadau allweddol** 1

**Crynodeb gweithredol** 4

**Cyflwyniad** 6

**Adolygiad llenyddiaeth byr** 8

**Dull** 11

**Canlyniadau** 15

**Trafodaeth** 32

**Cyfeirnodau** 35

**Atodiad** 40

# Crynodeb a chanfyddiadau allweddol

## Cyflwyniad

- Mae gofalwyr ifanc yn blant a phobl ifanc sy'n gofalu am aelod o'r teulu oherwydd salwch neu anabledd. Mae ymchwil wedi canfod ei fod yn gallu bod yn anodd iddynt gydbwyso eu gofalu gyda'r ysgol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gwella bywydau gofalwyr ifanc, gan gynnwys yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu 3 darn o ymchwil i ddeall yn well sut i gefnogi gofalwyr ifanc. Yr adroddiad hwn yw'r darn cyntaf o'r gwaith hwnnw.
- Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar iechyd meddwl, llesiant a bywyd ysgol gofalwyr ifanc o'i gymharu â phlant eraill. Mae iechyd meddwl a llesiant yn cynnwys sut mae plant yn teimlo am eu hunain, a sut mae nhw'n delio â'r pethau sy'n digwydd yn eu bywydau. Mae hefyd yn cynnwys sut mae nhw'n gweld ac yn dod ymlaen â phobl eraill, gan gynnwys plant ac athrawon yn yr ysgol.

## Dulliau

- Defnyddiodd yr adroddiad ymatebion myfyrwyr ysgolion uwchradd yng Nghymru i arolwg a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd. Atebodd dros 65,000 o bobl ifanc gwestiwn ynghylch a oedden nhw'n ofalwr ifanc. Fe ddywedon hefyd wrthym pa mor aml oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu – o bob dydd i lai nag unwaith y mis.
- Rydym yn bwriadu:
    - Edrych ar faint o bobl ifanc yng Nghymru sy'n ofalwyr ifanc.
    - Cymharu iechyd meddwl, llesiant a bywyd ysgol gofalwyr ifanc â phlant eraill.
    - Gwirio a oedd gwahaniaethau rhwng gofalwyr ifanc a oedd â chyfrifoldebau gofalu mwy rheolaidd a llai rheolaidd.
    - Gwneud yn siŵr ein bod yn mesur effaith bod yn ofalwr ifanc yn hytrach na rhywbeth arall a allai effeithio ar eu profiadau (er enghraifft faint o arian sydd gan deulu, rhyw, oedran).

**Canfyddiadau allweddol**

- Dywedodd tua 18% o fyfyrwyr wrthym eu bod yn ofalwyr ifanc – mae hyn yn fwy nag 1 o bob 6. Roedd hyn yn cynnwys 18% o ferched ac 17% o fechgyn. Roedd mwy o ofalwyr ifanc ymhlith myfyrwyr nad oeddent yn gweld eu hunain fel merch na bachgen yn ofalwyr ifanc - bron i 34%.
- Roedd gan tua 4% o bobl ifanc gyfrifoldebau bob dydd, a roedd 5% yn gofalu rhan fwyaf o ddyddiau. Fe wnaethom ddisgrifio'r grwpiau hyn fel rhai sydd â rolau 'rheoleidd-dra uchel' a allai fod yn anoddach i'w cydbwyso â'r ysgol. Roedd pobl ifanc a oedd yn gofalu bob wythnos yn y grŵp 'rheoleidd-dra cymedrol', a phobl ifanc a oedd yn gofalu bob mis neu lai yn y grŵp 'rheoleidd-dra isel'.
- Roedd y sgoriau ar gyfer gofalwyr ifanc yn waeth nag ar gyfer myfyrwyr eraill, er bod y gwahaniaethau yn aml yn fach. Roedd y prif wahaniaethau yn eu hiechyd meddwl, gyda gofalwyr ifanc yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn teimlo'n anhwylus, yn bryderus neu'n anhapus. Roedd gofalwyr ifanc hefyd yn cael mwy o drafferth i ddod ymlaen yn dda gydag athrawon na myfyrwyr eraill.
- Fe edrychom hefyd ar wahaniaethau rhwng gofalwyr ifanc, a chanfod mwy o broblemau iechyd meddwl ymhlith y rhai sydd â rolau gofalu mwy rheolaidd.
- Nid oedd gan ofalwyr ifanc â chyfrifoldebau dyddiol y sgoriau gwaethaf bob amser. Er enghraifft, roedd gan y rhai â chyfrifoldebau rheolaidd lefelau uchel o sgiliau cymdeithasol-fuddiol (er enghraifft, aeddfedrwydd a chyfeillgarwch), o flaen plant nad oeddent yn ofalwyr, ac wedyn gofalwyr ifanc gyda rolau llai rheolaidd.

**Trafodaeth**

- Roedd sgoriau gofalwyr ifanc yn gyffredinol yn wael o'u cymharu â myfyrwyr eraill. Er bod y gwahaniaethau weithiau yn fach, roedd gwahaniaeth mawr yn eu sgoriau iechyd meddwl. Roedd hyn yn arbennig o wir am fyfyrwyr sy'n gofalu yn rheolaidd (y rhan fwyaf o ddyddiau neu bob dydd), ac mae angen mwy o gefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer y bobl ifanc hyn.
- Fodd bynnag, nid oedd sgoriau bob amser yn waeth i'r rhai sydd â rolau mwy. Er enghraifft, gofalwyr ifanc â rolau achlysurol oedd yn profi'r heriau mwyaf wrth ddatblygu sgiliau cymdeithasol-fuddiol ac adeiladu perthnasau gyda athrawon. Mae hyn yn awgrymu

y gallai cymorth i helpu myfyrwyr gyda'r heriau hyn gael ei anelu'n well at y rhai sydd â rolau llai rheolaidd.

- Mae cryfderau'r astudiaeth hon yn cynnwys y nifer fawr o ymatebwyr – mae hyn yn golygu y gallwn fod â hyder uchel yn y canlyniadau. Roedd yna hefyd ddigon o ofalwyr ifanc â rolau rheoleidd-dra uchel, cymedrol ac isel i edrych ar wahaniaethau rhyngddynt.
- Roedd cyfyngiadau i'r gwaith hefyd. Er enghraifft, roeddem ond yn gallu ystyried gwahaniaethau mewn sgoriau rhwng gofalwyr ifanc a phlant eraill. Nid yw'r arolwg yn dangos wrthym y rhesymau pam mae'r sgoriau hyn yn wahanol, felly mae angen dulliau eraill i archwilio hyn.
- Mae'r adroddiad hefyd wedi edrych ar pam mae rhai gofalwyr ifanc yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac eraill yn cael trafferth. Gwnaed hyn trwy ganolbwyntio ar ba mor rheolaidd yw rolau gofalwyr ifanc, ond mae bywydau gofalwyr ifanc yn amrywio mewn llawer o ffyrdd eraill.
- Dyma'r cyntaf o 3 darn o ymchwil, ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer y gwaith hwnnw yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys dadansoddi data arall sydd eisoes wedi'i gasglu gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Mae yna hefyd gyfle i gasglu data newydd a allai ein helpu i ddeall bywydau gofalwyr ifanc.
- Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at y diffyg ymchwil ansoddol ar ofalwyr ifanc, yn enwedig mewn ysgolion. Gallai gwaith ansoddol yn y dyfodol edrych ar pam mae eu sgoriau yn amrywio a beth sy'n gweithio wrth gefnogi'r grŵp, er y bydd angen canolbwyntio ar sut rydym hefyd yn dod o hyd i ofalwyr ifanc.

## Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc i gyrraedd eu potensial llawn. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ag ystod o amgylchiadau heriol, megis gofalwyr ifanc – plant a phobl ifanc sy'n gofalu am aelodau o'r teulu oherwydd salwch neu anabledd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddeall profiadau gofalwyr ifanc mewn addysg yn well drwy ariannu 3 cam o ymchwil. Mae'r darn Cam Un hwn o waith yn ddadansoddiad eilaidd rhagarweiniol o'r data gofalwyr ifanc sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd gan Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN). Mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan SHRN ym Mhrifysgol Caerdydd bob 2 flynedd ac fe'i cwblheir gan dros 120,000 o fyfyrwyr. Comisiynwyd yr ymchwil i gymharu iechyd meddwl, llesiant a bywyd ysgol y boblogaeth gofalwyr ifanc â phobl ifanc heb gyfrifoldebau gofalu, er mwyn llywio'r ymchwil a gynhaliwyd yng Ngham 2 a 3.

Roedd gan waith Cam Un 3 nod fel a ganlyn:

- Proffilio cyffredinrwydd y gofalwyr ifanc ac effeithiau gofalu drwy gymharu iechyd meddwl, llesiant, cysylltiad ysgol a pherthnasoedd ysgol gofalwyr ifanc â'u cyfoedion.
- Deall gwahaniaethau o fewn y grŵp gofalwyr ifanc trwy ddadansoddi sut mae sgoriau'n amrywio ar gyfer y mesurau hyn, yn dibynnu ar reoleidd-dra y rôl.
- Asesu effeithiau'r rôl gofalu wrth addasu ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol a ffactorau demograffig eraill.

Canfu'r ymchwil fod sgoriau iechyd meddwl, llesiant a bywyd ysgol gofalwyr ifanc yn wael o'u cymharu â phobl ifanc eraill, yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl a symptomau iselder. Roedd sgoriau hefyd yn ymddangos i waethygu ar gyfer iechyd meddwl wrth i reoleidd-dra y rôl gofalu gynyddu. Fodd bynnag, roedd eithriadau i hyn gyda gofalwyr ifanc sydd gyda'r rolau mwyaf rheolaidd yn derbyn y sgoriau uchaf ar gyfer sgiliau cymdeithasol-fuddiol. Er bod gan y rhai â rolau rheoleidd-dra isel y sgiliau cymdeithasol-fuddiol isaf o'r holl fyfyrwyr. Mae'r data hefyd yn dangos mai gofalwyr ifanc â rolau rheoleidd-dra isel sy'n cael y mwyaf o drafferth i ddatblygu perthnasau da gyda athrawon. Ar y cyfan, atgyfnerthodd y canfyddiadau yr angen i gefnogi gofalwyr ifanc ond hefyd amlygon nhw'r angen i asesu a haenu cefnogaeth i anghenion amrywiol y grŵp.

Mae'r drafodaeth yn ystyried cryfderau a chyfyngiadau'r ymchwil hwn, er mwyn llywio Cam 2 a 3 y gwaith. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at y potensial ar gyfer dadansoddiad meintiol pellach o ddata sydd eisoes ar gael, y cyfle i gysylltu data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgol â setiau data eraill, a'r posibilrwydd o gasglu data newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ymchwil ansoddol i pam mae'r sgoriau ar gyfer gofalwyr ifanc yn amrywio, a'r angen i nodi a rhannu arfer da a allai wella cymorth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion ledled Cymru.

# Cyflwyniad

## Deddfwriaeth a pholisi sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc

Mae gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod fel grŵp o blant a phobl ifanc sydd angen cymorth gan y gallai'r her o ofalu am aelodau o'r teulu arwain at amrywiaeth o effeithiau ar iechyd, llesiant ac addysg. Yn bennaf, mae gofalwyr ifanc yn cael eu hystyried mewn perthynas â deddfwriaeth gofal cymdeithasol trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Mae'r Ddeddf yn manylu ar y ddyletswydd i ddarparu ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, ond hefyd y gofalwyr sy'n eu cynorthwyo. Mae'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (2021) yn llywio sut mae'r Ddeddf yn cael ei chyflawni yn ymarferol, ac yn manylu ar rôl sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chymunedol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn. Bydd Strategaeth genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei chyhoeddi yn 2026.

Materion o bryder arbennig yw presenoldeb a chyflawniad addysg gofalwyr ifanc ac effeithiau hirdymor yr heriau hyn ar eu dyheadau, addysg bellach a'u posibiliadau cyflogaeth. Cyfeirir at ofalwyr ifanc yng nghanllawiau presenoldeb Llywodraeth Cymru (2023) fel grŵp sydd mewn perygl o golli'r ysgol. Yn ogystal, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant a chymorth i ddisgyblion (2016) yn ystyried sut y gall y rôl gofalu effeithio ar addysg, ond mae yna hefyd gydnabyddiaeth y gall ofn o ymyrraeth arwain at anawsterau i ymgysylltu â theuluoedd gofalwyr ifanc (2016, 2017). Mae'r Cwricwlwm i Gymru lyn nodi llesiant fel un o'i chwe Maes Dysgu a Phrofiad canolog, gyda'r 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol' yn cydnabod y gall profiadau tu allan i'r ysgol, megis gofalu am aelodau o'r teulu, effeithio ar lesiant.

# Nodau'r ymchwil

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau addysgol ar gyfer gofalwyr ifanc ac yn ddiweddar mae wedi dechrau cyfres tri cham o brosiectau ymchwil. Nod y gwaith yw gwella gwybodaeth am yr heriau addysgol y gall gofalwyr ifanc eu hwynebu gyda'r bwriad o wella prosesau ar gyfer adnabod gofalwyr ifanc ac olrhain canlyniadau dros amser. Bydd adnabod hefyd yn galluogi mwy o ofalwyr ifanc i gael mynediad at gymorth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w haddysg a'u bywydau ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli cwblhau cam cyntaf y gwaith. Mae'r adroddiad yn asesu'r data am ofalwyr ifanc sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) ym Mhrifysgol Caerdydd, ac i ddeall y meysydd canlynol yn well:

- Yr effaith o fod yn ofalwr ifanc ar iechyd meddwl, llesiant a bywyd ysgol (er enghraifft, perthnasoedd ag athrawon, perthnasoedd gyda cyfoedion, cyfranogiad ysgol).
- Sut mae amrywiadau yn rheoleidd-dra y rôl gofalu yn effeithio ar sgoriau ar gyfer pob mesur.
- A yw effeithiau sylweddol yn parhau ar ôl addasu ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â demograffeg allweddol (oedran, rhyw ac ethnigrwydd).

Mae'r adroddiad rhagarweiniol hefyd yn ystyried unrhyw fylchau sylweddol mewn data y gellid eu datrys mewn ymchwil yn y dyfodol. Gellid ymchwilio i hyn wedyn yng Ngham 2 neu 3, boed hynny trwy ddadansoddi data arall sydd eisoes wedi'i gasglu gan SHRN, cynnwys cwestiynau ychwanegol mewn arolwg SHRN yn y dyfodol, cysylltu data SHRN â chronfeydd data eraill, neu fel darn o ymchwil ar wahân.

# Adolygiad llenyddiaeth byr

## Nifer yr achosion o ofalwyr ifanc

Mae’r amcangyfrifon o nifer yr achosion o ofalwyr ifanc wedi cynyddu dros amser, o lai nag 1% yn y 1990au (Becker et al., 1998), i ystod a dderbynnir yn eang o 2 i 8% (Leu & Becker, 2017), i amcangyfrifon diweddar o 15% a mwy (for example Hewitt et al., 2019; Page et al., 2023). Mae'n annhebygol iawn bod y gwir achosion wedi newid i'r graddau hyn, ac mae'r amrywiad yn hytrach yn debygol o adlewyrchu newidiadau yn y ffordd yr ydym yn diffinio a mesur y grŵp. Gan ystyried diffiniadau yn gyntaf, am amser hir roedd y ffocws polisi, arferion ac ymchwil yn bennaf ar blant a phobl ifanc â rolau gofalu sylweddol, ac mae llawer o amcangyfrifon yn adlewyrchu'r is-grŵp hwnnw o'r boblogaeth gofalwyr ifanc gyfan. Mae'n debyg bod y grŵp hwnnw'n cynnwys llawer o'r rhai sydd angen cymorth fwyaf felly mae eu cefnogi yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ond mae yna hefyd gydnabyddiaeth gynyddol o grŵp mwy o faint ond mwy amrywiol. Disgwylir bod effeithiau'r rôl gofalu, gan gynnwys buddion cadarnhaol ac effeithiau negyddol, yn debygol o amrywio o fewn y boblogaeth, er bod y dealltwriaeth o sut mae effeithiau'n amrywio’n ymarferol yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddod o hyd i nifer y gofalwyr ifanc hefyd wedi newid. Mae hyn yn bwysig o ystyried y stigma sy'n bodoli o amgylch y rôl, a'r amharodrwydd sy'n deillio o hynny i gael mynediad at gymorth neu ddatgelu statws. Felly, mae adnabod gofalwyr ifanc wedi bod yn her erioed, ac mae’r gwahaniaethau mewn amcangyfrifon yn rhannol yn adlewyrchu llwyddiant amrywiol y gwahanol ddulliau (Aldridge, 2018). Mae'r cynnydd yn yr amcangyfrifon o achosion yn y DU yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn cynnwys 16% a 17% yng Nghymru, yn seiliedig ar arolwg SHRN 2019 a 2021 (Hewitt et al., 2019; Page et al., 2023), ond hefyd 14% yn Lloegr (Sharpe et al., 2021) ac 20% yn yr Alban (Robison et al., 2020). Amlygodd astudiaeth ddiweddar achosion ychydig yn is ledled y DU (Letelier et al., 2024) ond hefyd cynnydd o 8% cyn y pandemig coronafeirws i 11% ar ôl hynny. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r defnydd cynyddol o astudiaethau meintiol ar raddfa fawr, ac mae'r arolygon cyfrinachol hyn sy’n cael eu cwblhau gan blant a phobl ifanc yn argoeli’n dda i fesur nifer yr achosion yn gywir. Mae'r astudiaethau carfan hyn hefyd yn aml yn casglu data ar faint y rôl gofalu. Mae hyn yn caniatáu cymharu sgoriau ar gyfer gofalwyr ifanc a phobl ifanc heb gyfrifoldebau gofalu, ond hefyd dadansoddi gwahaniaethau o fewn y boblogaeth o ofalwyr ifanc.

## Astudiaethau o effaith gofalwyr ifanc.

Rhoddodd astudiaethau cychwynnol (for example Aldridge and Becker, 1993) ddarlun cyfoethog o fywydau gofalwyr ifanc, amgylchiadau teuluol a'u rolau gofalu. Tynnodd yr astudiaethau hyn sylw at yr effeithiau ar eu cyfleoedd addysg a chymdeithasol, ac roeddent yn feirniadol iawn o aelodau o'r teulu oedd ddim yn fodlon darparu gofal, a gwasanaethau iechyd a oedd yn tynnu cymorth ffurfiol yn ôl. Canfuwyd astudiaethau pellach, yn bennaf o ofalwyr ifanc â chyfrifoldebau sylweddol, y gall y rôl gofalu amharu ar y cydbwysedd rhwng addysg a chyfleoedd cymdeithasol sydd gan blant a phobl ifanc eraill, ac mae adolygiadau llenyddiaeth wedi tynnu sylw at effeithiau ar iechyd meddwl, addysg a dyheadau (Janes et al., 2022; Rose & Cohen, 2010).

Mae nifer o astudiaethau wedi ceisio nodi effeithiau cadarnhaol a chanfod manteision gan gynnwys mwy o wydnwch a strategaethau ymdopi (Cassidy et al., 2014), yn ogystal â hunan-effeithiolrwydd a llesiant ymhlith y rhai sy'n addasu'n dda i'r rôl (Gough & Gulliford, 2020). Mae effeithiau cadarnhaol a amlygir mewn ymchwil gwahanol yn cynnwys ystod o sgiliau cymdeithasol-fuddiol gan gynnwys annibyniaeth, aeddfedrwydd a chyfeillgarwch (Janes et al., 2022; Rose & Cohen, 2010).

Roedd astudiaethau trawstoriadol sy'n cymharu gofalwyr ifanc â phlant a phobl ifanc heb gyfrifoldebau gofalu yn brin oherwydd bod diffyg data ar gael (Joseph et al., 2020) ond mae hyn yn dechrau newid. Mae dau adolygiad systematig diweddar yn awgrymu bod gan ofalwyr ifanc iechyd meddwl gwael o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Alfonzo et al., 2022), a bod gofalu yn ffactor risg ar gyfer iechyd meddwl (Grangel et al., 2025). Mae astudiaethau unigol hefyd wedi tynnu sylw at eu hiechyd meddwl, llesiant (Leu et al., 2019; Meireles et al., 2023; Nagl-Cupal et al., 2014; Robison et al., 2020; Sharpe et al., 2021) ac ansawdd bywyd cymharol wael (Pilato et al., 2024). Canfuwyd bod y rôl gofalu yn niweidiol i fywyd ysgol a dyheadau (Nagl-Cupal et al., 2014; Robison et al., 2020), gyda'r grŵp hefyd yn fwy agored i dlodi (Vizard et al., 2019). Mae astudiaethau graddfa fawr yn gynyddol abl i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau gwahanol o fewn y boblogaeth gofalwyr ifanc, gan gynnwys lleihau llesiant (Lewis et al., 2022) ac iechyd meddwl (Janes & Melendez-Torres, 2024) wrth i gyfrifoldebau gofalu gynyddu.

Mae astudiaethau hydredol yn arbennig o brin, ond Lacey et al., (2025) cwblhaodd y dadansoddiad cyntaf o ganlyniadau cyn, yn ystod ac ar ôl i bobl ifanc ddod yn ofalwyr ifanc, gan ddod o hyd i foddhad bywyd is ar ôl dod yn ofalwyr ifanc. Canfu Janes & Melendez-Torres (2024) hefyd fod hyd y rôl gofalu (h.y. mewn misoedd a blynyddoedd) yn allweddol, gyda'r effeithiau tymor byr yn ymylol hyd yn oed i'r rhai sydd â chyfrifoldebau sylweddol, ond mae'r effeithiau hirdymor yn fwy sylweddol.

Er bod tystiolaeth eang bod gofalwyr ifanc yn gallu cael trafferth cydbwyso eu rôl gofalu â'r ysgol, nid oes llawer o ymchwil meintiol sy'n cymharu eu cyfranogiad ysgol neu ddatblygiad perthynas. Fodd bynnag, adroddodd Hamilton and Redmond (2020) fod myfyrwyr sy'n gofalu am bobl ag iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau yn llai ym-gysylltiedig â'r ysgol na gofalwyr ifanc eraill a'r boblogaeth gyffredinol.

## Dull

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) yn bartneriaeth strategol rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y Rhwydwaith yw gwella iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru, a rhan allweddol o hyn yw'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr. Mae'r arolwg yn cael ei gynnal mewn ysgolion uwchradd bob 2 flynedd ac mae'n casglu data ar feysydd gan gynnwys iechyd meddwl, llesiant, bywyd ysgol a theulu. Roedd dau gwestiwn, a gyfeiriwyd at fyfyrwyr yn hanner yr ysgolion, yn ymwneud â gofalu am aelodau o'r teulu a oedd yn sâl neu ag anabledd. Cynhwyswyd y cwestiynau hyn hefyd yn arolygon 2021 a 2017.

Cymerodd bron pob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru (202 o 205; 95%) ran yn arolwg 2023 a gwblhawyd gan 129,761 o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 7 i 11. Roedd arolwg 2021 hefyd yn cynnwys 123,204 o ymatebion. At ddibenion yr ymchwil hon, unwyd y 2 set ddata ac, ar ôl cael gwared ar fyfyrwyr sy'n dychwelyd (myfyrwyr ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn arolwg 2021 a fyddai wedi bod ym Mlynyddoedd 9 i 11 yn arolwg 2023) roedd 174,599 o achosion ar gyfer myfyrwyr unigol ar draws y saith blwyddyn ysgol. Ni chafodd data 2017 ei gynnwys gan ei fod wedi'i gasglu cyn y pandemig coronafeirws a allai fod wedi effeithio ar iechyd meddwl, lles ac addysg myfyrwyr.

## Mesurau

Defnyddiodd y dadansoddiad ystod o ddangosyddion gofalwyr ifanc, mesurau a newidynnau demograffig. Mae crynodeb fel a ganlyn, ac mae tabl o'r mesurau wedi'i gynnwys yn yr atodiad.

Roedd dau gwestiwn ar y testun o ofalwyr ifanc. Esboniodd y cyntaf pwy yw gofalwyr ifanc, ac yna gofynnodd am statws gofalwr ifanc fel a ganlyn: *Mae rhai pobl ifanc yn gorfod helpu i ofalu am bobl eraill yn eu teulu oherwydd eu bod yn anabl, yn sâl yn gorfforol neu'n feddyliol neu fod ganddynt broblem gydag alcohol neu gyffuriau. A oes unrhyw un yn eich teulu rydych chi'n gofalu am yn rheolaidd neu'n rhoi cymorth arbennig am y rhesymau hyn?* Roedd tri opsiwn ymateb yn cynnwys dewis ddim bod yn ofalwr a gofalu am un person neu sawl person. Derbyniodd y rhai a ddewisodd eu bod yn ofalwr gwestiwn rheolaidd rôl fel a ganlyn: *A pha mor aml ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi help arbennig i'r person hwn/y bobl hyn?* Roedd y cwestiwn yn cynnwys pum opsiwn ymateb ar gyfer gofalu 'Bob dydd', 'Y rhan fwyaf o

ddyddiau', 'O leiaf unwaith yr wythnos', 'O leiaf unwaith y mis', a 'Llai nag unwaith y mis'. Roedd hyn yn galluogi dadansoddiad yn ôl rheoleidd-dra y rôl gofalu.

Mae'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) yn offeryn sgrinio sefydledig (Goodman, 2001) sydd wedi'i gynllunio ar gyfer asesu anawsterau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r mesurau'n cynnwys 25 eitem, gyda phob un wedi'i raddio fel graddfa tri phwynt: (0 = Ddim yn Wir; 1 = Eithaf Gwir; 2 = Yn Sicr yn Wir). Gellir dadansoddi'r mesur fel a ganlyn:

- Graddfa cyfanswm anawsterau gydag 20 eitem a sgôr uchaf o 40, lle mae sgoriau uwch yn dangos mwy o anawsterau. Gellir eu rhannu'n gyfartal i 4 is-raddfa gyda 5 eitem yr un:
    - Emosiynol
    - Perthnasoedd cyfoedion
    - Ymddygiad
    - Gorfywiogrwydd
- Mae ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, is-raddfa 5 eitem ychwanegol, yn cael ei ddadansoddi ar wahân. Mae gan y raddfa sgôr uchaf o 10, ac roedd sgoriau uwch yn adlewyrchu ymddygiad mwy cadarnhaol.

Mae'r Holiadur Byr Hwyliau a Theimladau (SMFQ) yn offeryn sgrinio a ddefnyddir yn eang ar gyfer symptomau iselder mewn plant a phobl ifanc (Angold et al., 1995). Mae'r mesur yn cynnwys 13 eitem sy'n cael eu graddio ar raddfa tri phwynt (0 = Ddim yn wir; 1 = Weithiau'n wir; 2 = Gwir). Mae cyfanswm y sgoriau yn amrywio o 0 i 26, ac mae sgoriau uwch yn dangos symptomau iselder cryfach.

Dyluniwyd Graddfa Byr Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh (SWEMWBS) i asesu llesiant meddyliol ac mae'n cynnwys saith eitem sydd wedi'u fframio'n gadarnhaol (Melendez-Torres et al., 2019). Mae gan bob eitem 5 opsiwn ymateb yn amrywio o 'Dim o'r amser' (1) i Yr holl amser (5). Cyfanswm y sgôr uchaf yw 35, ac mae sgoriau uwch yn dangos llesiant gwell.

Mae'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr hefyd yn cynnwys 3 mesur ar wahân ar berthynas â chyfoedion, perthynas ag athrawon a chyfranogiad mewn ysgolion. Roedd ymchwil a gyhoeddwyd gan ddefnyddio'r data hwn (Moore et al., 2024) yn cynnwys 3 eitem ar gyfer pob mesur. Roedd gan bob eitem 5 opsiwn ymateb, o "Cytuno'n gryf" (1) i "Anghytuno'n gryf" (5). Roedd gan bob mesur gyfanswm sgôr uchaf o 15. Roedd sgoriau is yn dangos perthnasoedd a chyfranogiad ysgol gwell.

Roedd cynnwys nodweddion demograffig cymdeithasol-ddemograffig yn galluogi addasu effeithiau gofalu ar gyfer ffactorau eraill. Roedd hyn yn cynnwys statws economaidd-gymdeithasol a aseswyd trwy'r Family Affluence Scale (FAS), graddfa a ddefnyddir yn helaeth ar gyfer asesu cyfoeth plant. Mae'r raddfa yn cynnwys chwe eitem, ac mae’r sgôr uchaf o 13 yn dynodi'r llewyrch uchaf. Roedd cwestiwn rhywedd yn galluogi ymatebwyr i uniaethu fel bachgen, merch, neu ddewis 'dydy’r naill air na'r llall yn fy nisgrifio', ac roedd newidyn ethnigrwydd yn cynnwys pum grŵp (Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du neu Ddu Prydeinig; ethnigrwydd cymysg neu lluosog; grwpiau ethnig eraill; Gwyn). Defnyddiwyd blwyddyn ysgol fel procsi ar gyfer oedran.

## Paratoi’r data

Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o arolwg 2023 ar gyfer yr holl fyfyrwyr ym Mlynyddoedd 7 i 11, wedi'i ategu â data 2021 ar gyfer myfyrwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Roedd hyn yn galluogi maint sampl mwy o fyfyrwyr unigol. Addaswyd y newidyn statws gofalwr ifanc o newidyn 3-opsiwn (dim cyfrifoldebau; gofalu am un person; gofalu am sawl person) i newidyn deuaidd. Fel y newidyn allweddol ar gyfer y dadansoddiad, eithriwyd achosion ar gyfer myfyrwyr oedd heb ateb y cwestiwn hwn.

Ail-godiwyd y newidyn rheoleidd-dra gofalu 5 opsiwn gwreiddiol gyda 'Dim cyfrifoldebau' wedi'i ychwanegu fel grŵp ychwanegol ar gyfer myfyrwyr heb rolau gofalu. Felly, roedd y newidyn a ddadansoddwyd yn cynnwys 6 opsiwn, o'r isaf ('Dim cyfrifoldebau') i'r rheoleidd-dra uchaf ('Bob dydd'). Roedd data coll ar draws y set ddata derfynol yn isel iawn (2.4%), ac mae'n debyg nad oedd ymateb i gwestiwn statws gofalwr ifanc yn cael fawr o effaith ar y canlyniadau.

## Dadansoddiad

Roedd dadansoddiad disgrifiadol cychwynnol yn asesu cyffredinrwydd gofalwyr ifanc yng Nghymru, ac a oedd yr achosion yn uwch yn dibynnu ar y newidynnau demograffig. Cymharodd dadansoddiad disgrifiadol y sgoriau cymedrig ar gyfer gofalwyr ifanc gyda phlant a phobl ifanc heb gyfrifoldebau gofalu. Ailadroddwyd y dadansoddiad disgrifiadol gyda'r data rheoleidd-dra.

Galluogodd modelu atchweliad ddadansoddiad o gryfder y berthynas rhwng statws gofalu a phob mesur. Crynhowyd y sgoriau ar gyfer pob un o'r mesurau gan gynnwys y Family Affluence Scale, SMFQ, SWEMWBS, perthnasoedd myfyrwyr, perthnasoedd athrawon, a chyfranogiad mewn ysgolion. Crynhowyd y sgoriau hefyd ar gyfer y graddfeydd cyfanswm anawsterau SDQ 20 eitem, yr is-raddfeydd anawsterau SDQ 4 ar gyfer emosiynau, ymddygiad, gorfywiogrwydd a phroblemau cyfoedion, a'r raddfa cymdeithasol-fuddiol SDQ ar wahân. Cynhaliwyd model ar gyfer pob mesur, gan addasu ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol, oedran, rhywedd ac ethnigrwydd.

Ailadroddwyd y modelau ond gyda'r newidyn rheoleidd-dra yn lle'r newidyn statws gofalwr ifanc, er mwyn dadansoddi sut roedd y perthnasoedd yn amrywio o fewn y grŵp gofalwyr ifanc.

# Canlyniadau

Cwblhawyd arolygon 2021 a 2023 gan 174,599 o fyfyrwyr unigol. Yn dilyn y broses glanhau data, dilëwyd 106,000 o achosion, yn bennaf oherwydd llwybro yn yr arolwg a thua hanner y myfyrwyr ddim yn derbyn y cwestiwn statws gofalwr ifanc (n = 85,647). Cafodd achosion hefyd eu dileu gan nad oedd myfyrwyr yn ymateb i'r cwestiwn statws gofalwr ifanc canolog (*n* = 20,353). Arweiniodd hyn at sampl sylfaenol o 68,599 o fyfyrwyr a dderbyniodd ac atebodd y cwestiwn.

## Dadansoddiad o gyffredinrwydd

Mae Tabl 1 yn cynnwys yr ystadegau sampl. Cwblhawyd yr arolwg gan ychydig yn fwy o ferched (49.3%) na bechgyn (48.4%), a dewisodd 1.9% o fyfyrwyr 'Nid yw'r naill air na'r llall yn eu disgrifio' ar gyfer rhywedd. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn wyn (88.4%), ac yna Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (4.4%). Mae'r cynnydd mewn ymatebion ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11 (28.2% a 26.7% yn y drefn honno) o ganlyniad i'r dadansoddiad sy'n cynnwys y grwpiau blwyddyn o arolygon 2021 a 2023.

Mae Tabl 1 hefyd yn cyflwyno ffigurau cyffredinrwydd gofalwyr ifanc ar gyfer y sampl gyfan o fyfyrwyr ysgol uwchradd. Roedd y cyffredinrwydd yn 17.7% (*n* = 12,157 o ofalwyr ifanc), gyda cyfwng hyder (CI) o 95% o 17.4-18.0%. Roedd y sampl yn cynnwys 3.7% o fyfyrwyr a oedd yn gofalu 'Bob dydd' (*CI* = 3.6-3.9%), gyda 5.1% yn gofalu 'Y rhan fwyaf o ddyddiau' (*CI* = 5.0-5.3%). Cofnodwyd ffigurau hefyd ar gyfer 'O leiaf unwaith yr wythnos' (3.5%; *CI* = 3.4-3.7%), 'O leiaf unwaith y mis' (2%; *CI* = 1.9-2.1%) a 'Llai nag unwaith y mis' (2%; *CI* = 1.9-2.1%). Roedd myfyrwyr nad oeddent yn ofalwyr wedi'u cynnwys fel grŵp heb unrhyw gyfrifoldebau.

Mae Tabl 2 yn cyflwyno'r ffigurau cyffredinrwydd gofalwyr ifanc ar gyfer y ddemograffeg benodol. Roedd yr achosion ychydig yn uwch ar gyfer merched (17.8%) na bechgyn (16.9%), ond bron i ddwbl ar gyfer myfyrwyr nad oeddent yn uniaethu fel bechgyn na merched (33.7%). Roedd yr achosion hefyd yn uwch ar gyfer Myfyrwyr 'Ethnigrwydd Cymysg a Lluosog' (19.4%) a myfyrwyr 'Ethnigrwydd Eraill' (19.3%) na grwpiau eraill gan gynnwys 'Myfyrwyr Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd' (13.3%). Nid oedd llawer o wahaniaeth yn ôl blwyddyn ysgol, ac nid oedd unrhyw arwydd bod yr achosion yn cynyddu gydag oedran.

Fel arfer, roedd gan ddemograffeg gyda cyffredinrwydd statws gofalwr ifanc uwch rolau mwy rheolaidd hefyd (Tabl 3). Roedd y rhain yn cynnwys mwy o reoleidd-dra gofalu ymhlith myfyrwyr nad oeddent yn uniaethu fel y naill rywedd na'r llall (17.1% yn gofalu 'Bob dydd' neu 'Y Rhan fwyaf o Ddyddiau' ar y cyd) a Merched (9.3%) na Bechgyn (7.9%), yn ogystal ag Ethnigrwydd Arall (10.7%) ac Ethnigrwydd Cymysg a Lluosog (10.2%).

**Tabl 1. Nodweddion sampl.**

| | N (%) |
|---|---|
| Statws gofalwr ifanc | |
| Oes | 12,157 (17.7%) |
| Llai nag unwaith y mis | 1,335 (2.0%) |
| O leiaf unwaith y mis | 1,326 (2.0%) |
| O leiaf unwaith yr wythnos | 2,367 (3.5%) |
| Y rhan fwyaf o ddyddiau | 3,459 (5.1%) |
| Bob dydd | 2,499 (3.7%) |
| Nac oes | 56,442 (82.3%) |
| Rhywedd | |
| Merch | 33,479 (49.3%) |
| Bachgen | 33,173 (48.4%) |
| Y naill na'r llall | 1,301 (1.9%) |
| Blwyddyn ysgol | |
| 7 | 9,870 (14.4%) |
| 8 | 10,295 (15.0%) |
| 9 | 10,746 (15.7%) |
| 10 | 19,360 (28.2%) |
| 11 | 18,328 (26.7%) |
| Ethnigrwydd | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 2,922 (4.4%) |
| Du neu Du Prydeinig | 1,216 (1.8%) |
| Cymysg a Lluosog | 2,176 (3.3%) |
| Arall | 1,418 (2.1%) |
| Gwyn | 58,695 (88.4%) |

**Tabl 2. Ffigurau cyffredinrwydd gofalwyr ifanc ar gyfer y sampl gyfan ac ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig.**

| | Gofalwr | |
|---|---|---|
| | **Nac oes N (%)** | **Oes N (%)** |
| Statws gofalwr | 56,442 (82.3%) | 12,157 (17.7%) |
| Rhywedd | | |
| Merch | 27,503 (82.2%) | 5,976 (17.8%) |
| Bachgen | 27,583 (83.1%) | 5,590 (16.9%) |
| Y naill na'r llall | 863 (66.3%) | 438 (33.7%) |
| Blwyddyn ysgol | | |
| 7 | 8,176 (82.8%) | 1,694 (17.2%) |
| 8 | 8,397 (81.6%) | 1,898 (18.4%) |
| 9 | 8,818 (82.1%) | 1,928 (17.9%) |
| 10 | 15,948 (82.4%) | 3,412 (17.6%) |
| 11 | 15,103 (82.4%) | 3,225 (17.6%) |
| Ethnigrwydd | | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 2,532 (86.7%) | 390 (13.3%) |
| Du neu Du Prydeinig | 1,013 (83.3%) | 203 (16.7%) |
| Cymysg a Lluosog | 1,753 (80.6%) | 423 (19.4%) |
| Arall | 1,144 (80.7%) | 274 (19.3%) |
| Gwyn | 48,323 (82.3%) | 10,372 (17.7%) |

**Tabl 3. Ffigurau cyffredinrwydd ar gyfer rheoleid-dra y rôl gofalu.**

| | Rheoleidd-dra gofalwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim cyfrifoldebau** | **Llai nag unwaith y mis** | **O leiaf unwaith y mis** | **O leiaf unwaith yr wythnos** | **Y rhan fwyaf o ddyddiau** | **Bob dydd** |
| | **N (%)** | **N (%)** | **N (%)** | **N (%)** | **N (%)** | **N (%)** |
| **Rheoleidd-dra gofalwyr** | 56,442 (83.7%) | 1,335 (2.0%) | 1,326 (2.0%) | 2,367 (3.5%) | 3,459 (5.1%) | 2,499 (3.7%) |
| **Rhywedd** | | | | | | |
| Merch | 27,503 (83.6%) | 535 (1.6%) | 630 (1.9%) | 1,167 (3.5%) | 1,785 (5.4%) | 1,278 (3.9%) |
| Bachgen | 27,583 (84.5%) | 723 (2.2%) | 646 (2.0%) | 1,088 (3.3%) | 1,517 (4.6%) | 1,086 (3.3%) |
| Y naill na'r llall | 863 (68.3%) | 62 (4.9%) | 39 (3.1%) | 82 (6.5%) | 113 (8.9%) | 104 (8.2%) |
| **Blwyddyn ysgol** | | | | | | |
| 7 | 8,176 (84.7%) | 182 (1.9%) | 174 (1.8%) | 261 (2.7%) | 484 (5.0%) | 376 (3.9%) |
| 8 | 8,397 (83.3%) | 189 (1.9%) | 189 (1.9%) | 352 (3.5%) | 525 (5.2%) | 434 (4.3%) |
| 9 | 8,818 (83.6%) | 220 (2.1%) | 237 (2.2%) | 374 (3.5%) | 532 (5.0%) | 373 (3.5%) |
| 10 | 15,948 (83.7%) | 371 (1.9%) | 375 (2.0%) | 715 (3.8%) | 1,002 (5.3%) | 644 (3.4%) |
| 11 | 15,103 (83.5%) | 373 (2.1%) | 351 (1.9%) | 665 (3.7%) | 916 (5.1%) | 672 (3.7%) |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 2,532 | 50 (1.7%) | 33 (1.1%) | 63 (2.2%) | 103 (3.6%) | 98 (3.4%) |
| Du neu Du Prydeinig | 1,013 | 32 (2.7%) | 18 (1.5%) | 33 (2.8%) | 47 (3.9%) | 53 (4.4%) |
| Cymysg a Lluosog | 1,753 | 50 (2.3%) | 50 (2.3%) | 71 (3.3%) | 117 (5.5%) | 100 (4.7%) |
| Arall | 1,144 | 43 (3.1%) | 22 (1.6%) | 35 (2.5%) | 69 (5.0%) | 79 (5.7%) |
| Gwyn | 48,323 | 1,116 (1.9%) | 1,161 (2.0% | 2,099 (3.6%) | 2,988 (5.2%) | 2,052 (3.6%) |

## Dadansoddiad disgrifiadol

Mae Tabl 4 yn cynnwys cymedrau lefel grŵp a gwyriadau safonol y mesurau ar gyfer yr is-grŵp gofalwyr ifanc a phlant eraill. Roedd sgoriau gofalwyr ifanc yn wael ar draws pob mesur. Roedd hyn yn cynnwys sgoriau uwch ar fesur cyfanswm anawsterau SDQ (*M* = 17.7 o'i gymharu â 13.7), a phob un o'r is-raddfeydd emosiynol, ymddygiad, gorfywiogrwydd ac anawsterau cyfoedion. Mae sgoriau SMFQ uwch yn dangos mwy o symptomau iselder (*M* = 11.0) o'u cymharu â'u cyfoedion (*M* = 7.3), ac mae sgoriau cymdeithasol-fuddiol SDQ is yn dangos ymddygiad cymdeithasol-fuddiol ychydig yn waeth (*M* = 7.0 o'i gymharu â 7.1). Roedd cyfoeth cymharol yn isel ymhlith gofalwyr ifanc (*M* = 8.8) o'u cymharu â chyfoedion (*M* = 9.3).

**Tabl 4. Cymedrau ar lefel grŵp a gwyriad safonol mesurau ar gyfer gofalwyr ifanc a phobl ifanc heb gyfrifoldebau gofalu.**

| | Statws gofalwr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nac oes | | Oes | |
| | M | SD | M | SD |
| **Cyfoeth** | 9.3 | 2.3 | 8.8 | 2.4 |
| **Llesiant** | 23.7 | 5.4 | 21.5 | 5.8 |
| **SMFQ** | 7.3 | 6.6 | 11.0 | 7.6 |
| **Cyfanswm anawsterau SDQ** | 13.7 | 6.8 | 17.7 | 7.0 |
| Emosiynol | 4.1 | 2.8 | 5.4 | 2.9 |
| Ymddygiad | 2.4 | 2.0 | 3.4 | 2.2 |
| Gorfywiogrwydd | 5.0 | 2.7 | 6.0 | 2.5 |
| Problemau cyfoedion | 2.2 | 1.8 | 3.1 | 2.0 |
| **SDQ Cymdeithasol-fuddiol** | 7.1 | 2.2 | 7.0 | 2.3 |
| **Cyfranogiad yn yr ysgol** | 8.7 | 3.0 | 8.8 | 3.1 |
| **Perthnasoedd myfyrwyr** | 7.7 | 2.6 | 8.4 | 2.9 |
| **Perthnasoedd athrawon** | 7.4 | 2.8 | 8.1 | 3.2 |

Mae Tabl 5 yn cyflwyno cymedrau a gwyriadau safonol y grŵp ar gyfer y gwahanol lefelau o reoleidd-dra gofalu, gan alluogi ystyriaeth o wahaniaethau o fewn y grŵp gofalwyr ifanc. Newidiodd rhai sgoriau yn raddol wrth i rôl gofalu gynyddu, gan gynnwys cyfoeth a ostyngodd o gymedr o 9.3 (i'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau) i 8.6 (cyfrifoldeb dyddiol), a symptomau iselder SMFQ a gynyddodd o 7.3 i 11.3. Mae newidiadau bach neu anwastad ar draws y 6 lefel o reoleidd-dra yn anoddach i'w dehongli ar gyfer rhai mesurau (er enghraifft cyfranogiad mewn ysgolion; perthnasoedd gydag athrawon), ond bydd y dadansoddiadau atchweliad yn profi ac yn cryfhau'r canfyddiadau disgrifiadol hyn.

**Tabl 5. Cymedr lefel grŵp a gwyriadau safonol y mesurau ar gyfer y chwe lefel o reoleidd-dra gofalu.**

| | Rheoleidd-dra gofalwyr | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dim cyfrifoldebau | | Llai nag unwaith y mis | | O leiaf unwaith y mis | | O leiaf unwaith yr wythnos | | Y rhan fwyaf o ddyddiau | | Bob dydd | |
| | **M** | **SD** | **M** | **SD** | **M** | **SD** | **M** | **SD** | **M** | **SD** | **M** | **SD** |
| **Cyfoeth** | 9.3 | 2.3 | 9.0 | 2.5 | 9.0 | 2.4 | 8.9 | 2.4 | 8.7 | 2.4 | 8.6 | 2.5 |
| **Llesiant** | 23.7 | 5.4 | 21.8 | 6.1 | 21.6 | 5.4 | 21.7 | 5.5 | 21.3 | 5.5 | 21.3 | 6.3 |
| **SMFQ** | 7.3 | 6.6 | 10.2 | 7.7 | 10.5 | 7.3 | 10.8 | 7.4 | 11.3 | 7.5 | 11.3 | 7.8 |
| **Cyfanswm anawsterau SDQ** | 13.7 | 6.8 | 17.1 | 7.1 | 17.2 | 6.8 | 17.5 | 6.7 | 17.9 | 7.0 | 18.2 | 7.3 |
| Emosiynol | 4.1 | 2.8 | 4.9 | 3.0 | 5.2 | 2.9 | 5.3 | 2.8 | 5.5 | 2.9 | 5.5 | 3.0 |
| Ymddygiad | 2.4 | 2.0 | 3.5 | 2.3 | 3.3 | 2.1 | 3.3 | 2.1 | 3.3 | 2.2 | 3.5 | 2.3 |
| Gorfywiogrwydd | 5.0 | 2.7 | 5.9 | 2.5 | 5.9 | 2.5 | 6.0 | 2.5 | 6.1 | 2.5 | 6.0 | 2.6 |
| Problemau cyfoedion | 2.2 | 1.8 | 3.0 | 2.1 | 2.9 | 1.9 | 3.0 | 2.0 | 3.1 | 2.0 | 3.2 | 2.1 |
| Cymdeithasol-fuddiol | 7.1 | 2.2 | 6.3 | 2.6 | 6.9 | 2.3 | 7.0 | 2.2 | 7.2 | 2.2 | 7.2 | 2.5 |
| **Cyfranogiad yn yr ysgol** | 8.7 | 3.0 | 9.0 | 3.2 | 8.9 | 3.0 | 8.9 | 3.0 | 8.8 | 3.0 | 8.7 | 3.4 |
| **Perthnasoedd myfyrwyr** | 7.7 | 2.6 | 8.3 | 3.0 | 8.4 | 2.8 | 8.4 | 2.9 | 8.5 | 2.9 | 8.2 | 3.1 |
| **Perthnasoedd athrawon** | 7.4 | 2.8 | 8.2 | 3.3 | 7.9 | 3.0 | 8.0 | 3.1 | 8.0 | 3.1 | 7.9 | 3.4 |

## Dadansoddiad atchweliad

Mae Tabl 6 yn cynnwys canlyniadau'r dadansoddiad atchweliad ar gyfer y newidyn statws gofalwr ifanc. Mae'r grŵp llinell sylfaen yn cynrychioli'r sgôr ar gyfer myfyrwyr heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu, ac mae'r amcangyfrifon gofalwr ifanc yn gymharol â'r grŵp llinell sylfaen. Mae'r tabl hefyd yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer cyd-newidynnau (rhywedd, ethnigrwydd, oedran a chyfoeth). Pwrpas cynnwys y cyd-newidynnau oedd addasu ar gyfer eu heffaith a chynyddu cywirdeb yr amcangyfrifon o ofalwr ifanc.

Ar ôl addasu ar gyfer cyd-newidynnau, roedd gan ofalwyr ifanc sgoriau gwaeth ar gyfer pob mesur. Roedd hyn yn cynnwys sgôr uchel ar y raddfa SDQ ar gyfer cyfanswm anawsterau (*b* = 3.72) o'i gymharu â myfyrwyr heb rolau gofalu (*b* = 14.45), a mwy o anawsterau ar gyfer pob un o'r 4 is-raddfa gan gynnwys ymddygiad (*b* = 0.94 o'i gymharu â 2.45) a phroblemau cyfoedion (*b* = 0.75, o'i gymharu â 2.47). Mae'r sgôr uwch ar gyfer y raddfa SMFQ (*b* = 3.25), yn dangos mwy o symptomau ar gyfer iselder na myfyrwyr eraill (*b* = 7.71), ac mae'r data ar fywyd ysgol yn dangos bod hefyd ganddynt heriau wrth ddatblygu perthnasau ag athrawon (*b* = 0.63, o'i gymharu â 4.99). Fodd bynnag, nid oedd llawer o wahaniaeth yn y mesurau gweddillol, gan gynnwys graddfa cymdeithasol-fuddiol SDQ (b = -0.04). Mae amcangyfrifon ar gyfer y grŵp gofalwyr llinell sylfaen a gofalwyr ifanc i gyd yn ystadegol arwyddocaol ac eithrio'r amcangyfrif gofalwr ifanc yn y model cymdeithasol-fuddiol SDQ .

**Tabl 6. Canlyniadau dadansoddiad atchweliad ar gyfer y grŵp gofalwyr ifanc, gyda myfyrwyr heb gyfrifoldebau gofalu fel y grŵp llinell sylfaen.**

| | Amcangyfrif | | LCI | UCI |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm anawsterau SDQ** | | | | |
| Llinell Sylfaen | 14.45 | *** | 14.01 | 14.90 |
| Gofalwr ifanc | 3.72 | *** | 3.57 | 3.86 |
| Cyfoeth | -0.36 | *** | -0.39 | -0.34 |
| Blwyddyn ysgol | 0.42 | *** | 0.38 | 0.46 |
| Bachgen | -2.79 | *** | -2.90 | -2.69 |
